**TGAU**

3601N20-1, 3602N20-1, 3603N20-1

**1 MEHEFIN 2021**

# DYLUNIO A THECHNOLEG – Uned 2
## Her Gyd-destunol

Hyd y papur 35 awr

**DIM OND AR GAEL I YMGEISWYR SY'N COFRESTRU AR GYFER CYMHWYSTER CBAC, WEDI'I GYMERADWYO GAN CYMWYSTERAU CYMRU. NID YW AR GAEL I GANOLFANNAU YN LLOEGR**

Un o nodweddion diffiniol gweithgaredd dylunio a thechnoleg yw ei fod yn ddibynnol ar gyd-destun, fel y mae canlyniadau gweithgareddau o'r fath.

Swyddogaeth yr her gyd-destunol yw rhoi ysgogiad allanol i ddysgwyr i'w ddefnyddio i archwilio ac egluro problemau a chyfleoedd dylunio. Bydd hyn yn arwain at ddatblygu eu briffiau dylunio eu hunain, a fydd yn llywio ac yn cyfeirio eu gweithgareddau dylunio a gwneud.

Bydd dysgwyr yn cael eu hasesu ar eu gallu i ddadansoddi ac ymateb i gyd-destunau, yn hytrach nag ar eu gwybodaeth am feysydd cyd-destunol penodol.

Mae gofyn i ddysgwyr ddewis **un** o'r cyd-destunau canlynol fel sail i'w tasg dylunio a gwneud:

**Canfod a datrys problemau** – "Canfod problemau, cymaint â datrys problemau, yw dylunio." Gan ganolbwyntio ar broblem sydd wedi'i nodi, dyluniwch a gwnewch ddatrysiad creadigol sy'n bodloni yn llawn anghenion a chwenychiadau'r defnyddiwr terfynol.

**Dylunwyr** – Gan ddefnyddio gwaith dylunwyr, dyluniwch a gwnewch gynnyrch sydd wedi'i ysbrydoli gan eu syniadau arloesol a chreadigol.

**Bioddynwaredd** – Mae'r byd naturiol wedi ysbrydoli dylunwyr erioed. Dyluniwch a gwnewch gynnyrch gan ddefnyddio bioddynwaredd *(biomimicry)* fel man cychwyn dylunio.

Atgoffir canolfannau y dylent ystyried yr arweiniad ar dudalennau 32–35 yn y fanyleb.

- Rydyn ni'n cyhoeddi heriau cyd-destunol 2021/2022 ar gyfer TGAU (A–G) Dylunio a Thechnoleg ym mis Mehefin 2021, yn unol â'r amserlen a roddwyd yn y manylebau.
- Yn ôl yr arfer, gall athrawon benderfynu pryd i rannu'r heriau cyd-destunol â'u dysgwyr.
- Rydyn ni'n gwerthfawrogi bod ansicrwydd o hyd am effaith barhaus coronafeirws ar weithgareddau asesiadau di-arholiad dylunio a thechnoleg 2021/2022, yn enwedig cwblhau'r gwaith ymarferol sy'n arwain at gynhyrchu'r prototeip terfynol.
- Bydd rhagor o wybodaeth ar gael wrth i'r sefyllfa ddod yn fwy eglur.
- Fodd bynnag, efallai yr hoffai athrawon sôn wrth ddysgwyr y gallan nhw ddechrau nodi posibiliadau dylunio a datblygu briff a manyleb dylunio yn y ffordd arferol.
- Yn ôl yr arfer, byddem yn annog athrawon i atgoffa dysgwyr na ddylent ymgymryd ag unrhyw weithgareddau y tu allan i'r ystafell ddosbarth a allai fod â goblygiadau o ran iechyd a diogelwch. Mae hyn yn cynnwys dadgydosod cynhyrchion neu ddefnyddio offer a llafnau miniog.

ⓗ WJEC CBAC Cyf.